URDD GOBAITH CYMRU

Cynllun talu
Payment Plan

**£999**

Blaendal
Deposit: £99

*Wyt ti am ddod?*

# TAITH HAF

# LLYN GARDA

**BL.9-10**

*23-30 / 7 / 2026*

- Taith Cwch
- Fyny Mynydd Balbo mewn cable car
- Parc Hwyl Gardaland
- Gwesty gyda pwll nofio
- Taith i Venice
- Parc Dŵr
- Ymweld â phentref lleol
- Holl prydau bwyd yn y gwesty
- Trafnidiaeth: Bws a Fferi
- Staff Proffesiynol a Chymwysedig



**ARCHEBA HEDDIW**
**BOOK TODAY!**

Urdd
bitly

# OES CYNLLUNIAU GEN TI AR GYFER GWYLIAU'R HAF 2026?

**Wyt ti ym mlwyddyn 9 neu 10?  Eisiau rhywbeth i wneud dros y gwyliau?**

Wel, beth am wythnos o wyliau gyda dy ffrindiau mewn gwesty ger Llyn Garda yng Ngogledd yr Eidal?
Cei gyfle i gymdeithasu â ffrindiau o ysgolion eraill, torheulo a hwyl a sbri ar y teithiau canlynol sy'n gynwysedig yn y pris:

- Diwrnod yn *Gardaland*, **un o barciau antur gorau Ewrop**
- Mynediad i **barc dŵr** *'Aqua Paradise'*
- **Taith ar gwch** ar Lyn *Garda*
- Ymweld â **Stiwdios Ffilm** *Canevaworld*
- Siwrne mewn ***'cable car'*** ar *Mount Baldo*
- Diwrnod yn **Venice**



Mae'n bosib hefyd bydd rhagor o ymweliadau yn cael eu hychwanegu i'r amserlen, gan gynnwys diwrnod yn *Verona* neu *Milan* ond byddwn yn dy hysbysu am y rhain maes o law. Byddwn yn teithio drwy Ewrop ar fws moethus o'r safon uchaf, gyda chyfleusterau awyru, DVD, diodydd a thŷ bach.

**COST Y DAITH: £999**

Cynllun talu
Blaendal: £99

.....hyn i gynnwys llety mewn gwesty, y teithio, dau bryd y dydd, yr holl weithgareddau a'r ymweliadau ac yswiriant teithio. Mae llefydd ar y daith yma yn gyfyng iawn, felly os hoffet ymuno â ni sicrha dy fod yn cofrestru dy ddiddordeb heb oedi. Bydd angen i ni dderbyn blaendal o £199 erbyn 30 Ionawr 2026. Ac yna 4 taliad o £105 (1af Mawrth, 1af Ebrill, 1af Mai, 1af Mehefin)

**Cofia, bydd eisiau i ti fod yn aelod o'r Urdd ac yn medru'r Gymraeg er mwyn bod yn rhan o'r daith yma. Felly, ymaeloda nawr er mwyn manteisio ar yr holl weithgareddau sydd yn cael eu cynnig yn yr ardal!**

Am ragor o wybodaeth, neu os hoffet sgwrs am y daith, cysyllta ag
**Eryl Williams (Rheolwr Cymunedol y Gogledd a'r Canolbarth)**:

eryl@urdd.org
01407 470010



Urdd

# HAVE YOU MADE ANY PLANS FOR SUMMER 2026?

**Are you in Year 9 or 10? Looking for something to do during the summer holidays?**

How about a week-long holiday with your friends in a hotel near the shores of Lake Garda in Northern Italy?
You'll have a great time on the following excursions, which are included in the cost of the holiday:

- *A day in Gardaland,* ***one of the best theme parks in Europe***
- *Entry to the 'Aqua Paradise'* ***Water Park***
- *A* ***Boat Trip*** *on Lake Garda*
- *A visit to the Canevaworld* ***Film Studio theme park***
- *A* ***cable car trip*** *up Mount Baldo*
- *A Day in* ***Venice***



It is possible that further visits and excursions will be added to the itinerary with the possibility of a day trip to Verona or Milan, and we will notify you of this in due course. We will be travelling through Europe on an executive coach of the highest standard, with air conditioning, DVD, drinks and toilet facilities.

**COST OF TRIP:**
**£999**
Payment Plan
Deposit: £99

*.......to include 5 night stay in a hotel, Two meals a day , travelling, excursions and activities and travel insurance Places on this holiday are very limited, so if you would like to join us, make sure you register your interest without delay. We will need to receive your deposit of £199 by the 30th January 2026. The reminder of 4 payments of £105 to be made as followed 1st March, 1st April, 1st May, 1st June*

***Remember, you will need to be an Urdd member and able to speak Welsh fluently to join us on this holiday, so join now and take advantage of all the activities the Urdd has to offer in your area!***

*For more info, or if you wish to chat about the holiday, contact;*

**Eryl Williams (North & Mid Wales Community Manager)**

eryl@urdd.org
01407 470010



Urdd

## LLYN GARDA



Mae'r llyn, sydd yn 48km o hyd, yng Ngogledd yr Eidal i'r dwyrain o *Filan,* ac yn weddol agos i dref daleithiol *Bresica* a dinas enwog *Verona*, lleoliad '*Romeo a Juliet*'. Mae yna rywbeth i bawb ar *Lyn Garda* sydd yn gwneud hi'n berffaith am wythnos o wyliau. Fe weli o'r rhestr o weithgareddau isod y cei amser bendigedig! Bydd cyfle yn ystod yr wythnos am daith mewn cwch ar y llyn.



## GARDALAND

*Alton Towers* yn yr haul! Mae'r lle yma bendant i'r rhai sydd ag awydd cyffro a gwefr tra ar eu gwyliau! Reidiau cyflym a phosibilrwydd cryf y byddwch yn gwlychu. Dyma daith undydd bendant nad wyt ti eisiau colli!

## AQUA PARADISE



Y parc dŵr ar lan Llyn *Garda* ydi parc *Aqua Paradise*. Mae gan y parc ynys drofannol gydag atyniadau dŵr, llosgfynyddoedd, traethau gwyn, coed palmwydd. Cei gyfle i ymlacio, neu ddiwrnod llawn cyffro – ti sy'n dewis!




## CANEVA WORLD

Parc stiwdios ffilm ydy *Caneva World*. Am ddiwrnod heb ei ail dyma'r lle i fod! Mae gan y parc gyfuniad arbennig o reidiau sy'n seiliedig ar ffilmiau enwog, adloniant byw gan gynnwys sioe *'Rocky Horror'* a'r *'Blues Brothers'*, *'stunt show'* anhygoel gydag arddangosfeydd. Wrth ymweld â *Caneva World* byddi di bendant yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r cast!

## VENICE



Mae Venice yn olygfa heb ei hail! Byddwn yn treulio'r diwrnod cyfan yno'n crwydro'r strydoedd ag ymweld â sgwar enwog *Piazza San Marco*. Bydd cyfle i fynd ar daith ar un o'r '*Gondolas*' enwog *Venice* a hyd yn oed i ymlacio gyda ffrind dros latte.



## BRYN BALDO

Mae Bryn Baldo yn sefyll dros 2,000 o fetrau uwch y llyn ac yn un o nodweddion naturiol mwyaf ysblennydd o gwmpas Llyn *Garda*. Mae'r olygfa o ben y bryn yn fythgofiadwy, ond paid â phoeni, bydd dim angen i ti ddringo'r holl ffordd i'r copa! Mae *'cable car'* yn gadael o bentref *Malcesine* ac yn cymryd oddeutu 10 munud i gyrraedd yr orsaf sydd wedi ei leoli 1,700 metr uwch y llyn. Mae'r ffaith bod y cerbyd yn cylchdroi ar ei ffordd i fyny yn golygu y byddi di'n mwynhau golygfa 360 gradd.

## LAKE GARDA



The 48km long lake is in Northern Italy, east of Milan and fairly close to the provincial town of Brescia and the famous city Verona, the setting for Shakespeare's Romeo and Juliet. Lake Garda has something for everyone and is an ideal holiday destination. You'll see from the selection of activities listed below, that you're going to have a great time! There will be a chance for a relaxing boat trip on the Lake.



## GARDALAND

Alton Towers in the sun! this is definitely a place for thrill seekers! With fast and furious rides and a strong likelihood that you will at some point get wet, this is one day out you definitely do not want to miss!

## AQUA PARADISE



Aqua Paradise Park is the water fun park at Lake Garda. The park features a tropical island with exciting water attractions, an erupting volcano, an ancient lighthouse and an entire fishing village, with silky sand, palm trees, sharks and even a ghostly Galleon. A relaxing day out, or non-stop water thrills - it's up to you!



## CANEVA WORLD

Caneva World is amovie Studios Park and a great day out! It has an exciting combination of movie based rides, live entertainment including a short version of the 'Rocky Horror Show' and an appearance by the 'Blues Brothers', quite incredible stunt shows and exhibitions and demonstrations. When you go to Movie Studios Park you really are part of the cast!

## VENICE



A chance to taste the tranquillity of Venice. We will be spending the whole day in this beautiful city where you will have the chance to roam the streets and the world famous Piazza San Marco. An opportunity to experience a trip in a Gondola or just relax with a friend over a Latte.



## MOUNT BALDO

Mount Baldo soars over 2,000 meters above the lake and is the most spectacular of all the natural features around Lake Garda. The view from the top is incredible but don't worry, you don't have to climb all the way up! A very modern cable car leaves from Malcesine and it takes about ten minutes to get to the cable station at 1,700 meters. The fact that the cable car rotates while ascending means you get to enjoy a 360 degree panorama.



## GWESTY

Byddwn yn aros yng ngwesty sydd wrth ymyl Llyn Garda.
Mae gan y gwesty gyfleusterau sydd yn addas ar gyfer ein hanghenion, gydag ystafell ymolchi breifat ar gyfer pob ystafell. Byddi'n rhannu dy ystafell gyda ffrindiau, ac fel arfer mae'r ystafelloedd yn cysgu 4.
Bydd brecwast a phryd bwyd nos yn cael eu darparu gan y gwesty

## NEWIDIADAU

Ceisiwn osgoi unrhyw newidiadau mawr i'r hyn a hysbysir yn y daflen yma, ond cedwir yr hawl i wneud hyn os bydd rhaid. Byddwn yn dy hysbysu am unrhyw newidiadau ac yn rhoi amserlen terfynol y daith i'th rhieni yn ystod y cyfarfod fydd yn cael ei gynnal cyn y daith.



## HOTEL
We will be staying in a hotel that is a short walk from Lake Garda.
The hotel caters for groups of young people, and has facilities that will suit our needs. You will be sharing your room with friends and each room usually sleeps 4. Each room has a private bathroom.
The hotel will provide breakfast and an evening meal.

## CHANGES
We will try to avoid any drastic changes to the plans noted in this brochure; however we reserve the right to make changes if we feel it necessary. We will notify you of any changes and provide you with a detailed final itinerary during the meeting for parents which will be held before the trip.


ARCHEBWCH NAWR!
Urdd
bitly
BOOK NOW!
Urdd